

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 15fed o Orffennaf 2019 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Griffith Evan Thomas

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Simon Jones, Bethan Lawton,

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 17 Mehefin 2019:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig a'r Cynghorydd Alan Jones yn eilio.

4. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101664	£183.37
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101665	£45.80
Cwmni Tân Llŷn	Arbrofi offer tân	101666	£33.00
Playsafety Ltd	Adroddiad ROSPA	101667	£90.60
Jones & Jones	Llwybrau/Blodau	101668	£702.00

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau.

5. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus - Canllaw Cynllunio Atodol Drafft - CCA 4 - Tai Fforddiadwy:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Bedw Gwynion, 3 Y Groesffordd, Bryncrug, LL36 9RP (NP5/55/319):

PENDERFYNIAD: I anfon llythyr at yr Awdurdod Cynllunio yn nodi bod y Cyngor yn siomedig bod gwaith wedi ei gychwyn ar y safle cyn cael hysbysiad o'r cais cynllunio a chyfle i'w drafod, gan bwysleisio bod y safle ar y Groesffordd, a llawer o gerbydau yn teithio heibio'r safle.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Dyddiadau i'r Dyddiadur - Nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod Medi a Hydref 2019:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

8. Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd - Cau Ffordd - B4405 Dolgoch, Abergynolwyn:

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn mynegi pryderon y Cyngor am y camddealltwriaeth a fu yn ystod y cyfnod, gan nad oedd y cyhoedd yn ymwybodol o'r gwaith o flaen llaw, gan amlygu bod diffyg cynllunio o safbwynt Cyngor Gwynedd gan bod ffordd Dolgoch wedi cau a gwaith yn cael ei gynnal ar ffordd Llanegryn ar yr uni adeg. Cyngor Cymuned Bryncrug o'r farn bod safon y gwaith yn dda iawn ac yn gofyn i Gyngor Gwynedd edrych yn ôl ar y cyfnod a dysgu gwersi.

9. Adolygu'r Gofrestr Asedau:

PENDERFYNIAD: I ychwanegu'r canlynol i'r gofrestr asedau
Pympiau dŵr hanesyddol x 5. Gwerth £0
Cysgodfa bws x 2. Gwerth £0
Ciosg teleffon ger Rhydyronnen. Gwerth £1
Offer hanesyddol fel arad yn yr Ardd Fach. Gwerth £0

Meinciau. Y Groesffordd (1), Y bont (2), Gardd Fach (1), ger arwydd Pensarn (1), Penybont (1).
Gwerth £0
Cae chwarae £1.
Y Pafilwn £0. Gyda gwerth yswiriant £40,000

10. Prifysgol Lerpwl - Holiadur Myfyriwr - Effaith ail gartrefi ar gymunedau yng Ngwynedd a Môn:

PENDERFYNIAD: I ateb cwestiynau'r holiadur fel a ganlyn:
A ydych chi'n ystyried fod yna ormod o ail gartrefi yn Ynys Môn a Gwynedd?
Ydw
A ydych chi'n ystyried fod ail gartrefi yn effeithio ar y cymunedau gwledig lleol yn Ynys Môn a Gwynedd?
Ydw
Os dewisoch chi 'ydw' yn ateb i'r cwestiynau uchod, eglurwch sut ydych chi'n credu bod ail gartrefi yn effeithio ar y cymunedau gwledig lleol ac ym mha ffordd?
Cystadleuaeth o fewn y farchnad dai yn golygu bod pobl ifanc yn methu fforddio prynu tai

11. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd - llwybrau cerdded:

Yr oedd ymateb i'r gŵyn wedi ei dderbyn gan reolwr llwybrau cyhoeddus Meirionnydd, yn gofyn i Gyngor Gymuned Brynchrug ymwneud a'r gordyfiant a byddai Cyngor Gwynedd yn ad-dalu'r gost, gyda Chyngor Gwynedd i edrych ar y bont.

PENDERFYNIAD: Y Cynghorydd Arwel Pierce i gerdded y llwybrau ac adrodd yn ôl i'r Clerc.

12. Cae Chwarae - gosod les i Glwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug:

PENDERFYNIAD: Y Clerc i gysylltu gyda'r Clwb pêl-droed gan egluro y byddai'r Cyngor yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth gan y clwb ar bapur (yn ysgrifenedig) sydd yn dweud beth yw dymuniadau y clwb, eu bwriad a pha fath o delerau fydd yn dderbyniol i'r clwb am y defnydd o'r cae a'r Pafilwn. Gan hefyd ofyn am wybodaeth ysgrifenedig am eu cynlluniau i'r Pafilwn (system gwresogi dŵr ayyb) a manylion y grant hefyd yn cael ei werthfawrogi gan y cyngor, a nodi bod y cyfarfodydd sydd wedi bod ar y safle ac yn y Ganolfan o fudd i'r Cyngor er mwyn trafod ac bod Cyngor yn ddiolchgar o'r cyfleon i gynnal y cyfarfodydd.
Y Clerc i ofyn wrth y clwb pêl-droed os ydynt yn ymwybodol bod rhai o'u gwirfoddolwyr wedi defnyddio chwynladdwr mewn lle cyhoeddus, gan egluro bod y cae chwarae yn man cyhoeddus a bod angen i'r cyngor fel perchennog y cae i sicrhau iechyd a diogelwch defnyddwyr y cae. I hysbysu'r clwb y byddai contractwr cymwys y cyngor ar gael pe byddai angen er mwyn chwistrellu chwynladdwr.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
Y Pafilwn yn fudr
Adroddiad Rospa yn dangos nad yw'r pyst yn saff o amgylch y cae pel-droed

Rhodddwyd gair o ddiolch i Dafydd Jones, Penywern am ei gymorth i godi y caead ar y pafilwn.

PENDERFYNIAD: I anfon copi o'r adroddiad Rospa at y clwb pêl-droed, gan eu hysbysu bod angen newid y pyst neu bydd angen i'r Cyngor eu dymchwel
I archebu 12 "end caps"
I ganfod pris coesau i'r siglen – siglen plant bach
Gofyn wrth Jones & Jones i osod strap ar y caead ar y to

14. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

15. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod coeden onnen ar yr ynys, ger Penyparc yn marw.

PENDERFYNIAD: I dynnu sylw Cyngor Gwynedd i'r uchod gan ofyn am sicrwydd os yw'r goeden yn ddiogel neu beidio.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:45pm

Llofnod y Cadeirydd